Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y Cyfarfod	22 / 07 / 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl	Hyfforddiant ar Foeseg a Safonau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y deunyddiau a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig ar foeseg a safonau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu'r Pwyllgor am y deunyddiau a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig awdurdodau perthnasol yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Pwyllgor yn ystyried y deunyddiau a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig ar foeseg a safonau

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Testun yma Un o swyddogaethau'r Pwyllgor hwn yw goruchwylio'r trefniadau ar gyfer hyfforddi aelodau etholedig ar ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ym mis Mawrth eleni ar y dull cyffredinol o ymdrin â'r hyfforddiant hwn ond nid oedd y deunyddiau i'w defnyddio ar gael eto bryd hynny.

4.2. Mae CLlLC wedi cynhyrchu set gyffredin o ddeunyddiau hyfforddi i'w defnyddio wrth ddarparu hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad. Mae'r deunyddiau hyn ynghlwm fel Atodiadau 1 a 2

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.3. Yn ogystal, mae’r Swyddog Monitro wedi cynhyrchu cyflwyniad yn lleol i Gynghorwyr Sir ar Brotocol y Cyngor ar Gysylltiadau Aelod-Swyddogion, y mae copi ohono ynghlwm fel Atodiad 3.

4.4. Cynhaliwyd tair sesiwn hyfforddi ar wahân yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir yn ogystal â thair sesiwn ar wahân ar y Protocol ar Gysylltiadau Aelod Swyddogion. Nid yw pob cynghorydd wedi mynychu'r sesiynau hyn a bydd sesiynau pellach yn cael eu trefnu ym mis Medi. Mae'r Swyddog Monitro hefyd wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd o'r grwpiau gwleidyddol i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt ar gymhwyso'r Cod Ymddygiad.

4.5. Mae'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro hefyd wedi cynnal dwy sesiwn ym mis Gorffennaf ar gyfer Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned, gyda sesiynau pellach i'w cynnal ym mis Medi. Bydd sesiwn ar wahân i Glercod hefyd.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, fodd bynnag, mae safonau ymddygiad uchel yn elfen allweddol o lywodraeth leol effeithio

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau sylweddol yn gysylltiedig â darparu’r hyfforddiant hwn a thelir unrhyw gostau o’r cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas â’r adroddiad hwn

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd yn 6.1, ni fydd unrhyw newid sylweddol i'r gofyniad cost net ar gyfer y gwasanaeth hwn a bydd yn cael ei dalu o'r dyraniadau cyllideb bresennol. Felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Bydd darparu hyfforddiant yn cynorthwyo aelodau i ddilyn darpariaethau'r Cod Ymddygiad ac yn helpu i liniaru'r risg o ymddygiad gwael

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a54 Deddf Llywodraeth Leol 2000